Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd
# Canolfan Ddeintyddol Eastside
# Dyddiad y gweithgarwch:8 Rhagfyr 2021

Dyddiad cyhoeddi: 12 Ionawr 2021





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais.  Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu drwy:


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: agic@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk



ISBN digidol 978-1-80391-570-8



© Hawlfraint y Goron 2022

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Ganolfan Ddeintyddol Eastside fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r practis yn cynnig ystod o driniaethau'r GIG a thriniaethau preifat, ac yn cyflogi deg deintydd, tri hylenydd/therapydd deintyddol, 17 nyrs ddeintyddol, a nifer o dderbynyddion a staff cymorth. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygu a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn giplun o'r safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Mae'r rhain yn cael eu cynnal yn gyfan gwbl oddi ar y safle ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (ynghylch staffio yn benodol), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio'r trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor cyflym a chefnogol ar welliannau er mwyn gweithredu gwasanaethau yn ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â dau reolwr y practis deintyddol ar 8 Rhagfyr 2021, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am eu gwasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau ydych chi wedi'u gweithredu yng ngoleuni COVID-19 i sicrhau y cynhelir safonau atal a rheoli heintiau?
- Sut ydych yn sicrhau y gall yr holl gleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed / mewn perygl) gyrchu gwasanaethau mewn modd priodol a diogel?
- Sut ydych yn diwallu anghenion cleifion Cymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu wedi addasu yn ystod y cyfnod hwn o COVID-19?
- Sut ydych yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull sy'n seiliedig ar hawliau'n cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?

## Yr amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut yr ymatebodd y gwasanaeth i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi cynllunio a rheoli'r amgylchedd gofal i sicrhau ei fod mor ddiogel â phosibl i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym roedd:

- Yr asesiadau/archwiliadau risg amgylcheddol diweddaraf

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Darparodd rheolwyr y practis fanylion am y newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i amgylchedd y practis a oedd yn caniatáu i gleifion gael eu gweld yn ystod y pandemig COVID-19. Dywedwyd wrthym fod y practis yn cyfyngu ar nifer y cleifion a oedd yn bresennol yn y practis ar unrhyw un adeg. Gofynnid i gleifion wisgo gorchudd wyneb a chyrraedd y ddeintyddfa ar amser eu hapwyntiad yn unig. Dywedodd rheolwyr y practis wrthym fod arwydd wedi'i arddangos wrth ddrws y practis a oedd yn hysbysu cleifion i aros y tu allan ac i ffonio desg y dderbynfa i hysbysu'r practis eu bod wedi cyrraedd. Yna byddai aelod pendol o staff yn hebrwng y claf trwy'r practis, gan ddilyn system unffordd. Roedd gorsaf hylif diheintio wrth fynedfa'r practis a byddai cleifion yn cael eu hannog i'w defnyddio wrth gyrraedd y practis ac wrth adael.

Fe'n hysbyswyd gan reolwyr y practis fod sgriniau plastig clir wedi'u gosod wrth ddesgiau'r dderbynfa, er mwyn amddiffyn cleifion a staff. Arddangoswyd posteri y tu mewn i'r practis i atgoffa cleifion o'r gofynion uwch ar gyfer rheoli heintiau oherwydd y pandemig COVID-19 a'r angen i gadw pellter cymdeithasol. Dywedwyd wrthym fod teganau a chylchgronau wedi'u tynnu o'r man aros a bod llai o gadeiriau ar gael, gyda'r rheiny wedi'u gosod i sicrhau y cedwid pellter cymdeithasol priodol.

Fe wnaethom holi pa fesurau oedd ar waith i hysbysu cleifion ynglŷn â gweithdrefnau diogelwch sy'n gysylltiedig â COVID-19. Dywedwyd wrthym fod gwybodaeth gyfoes am y mesurau uwch ar gael ar wefan y practis deintyddol. Yn ogystal â hyn, anfonwyd dolen i'r cyfyngiadau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith yn y practis trwy neges destun neu drwy e-bost at y claf cyn ei apwyntiad. Byddai cleifion hefyd yn cael eu ffonio i egluro'r gweithdrefnau diogelwch yn ymwneud â COVID-19. Ar gyfer cleifion heb fynediad i'r rhyngrwyd, darparwyd taflen yn amlinellu'r mesurau sydd ar waith yn y practis a byddai'r

staff yn cymryd amser ychwanegol i siarad â nhw i sicrhau eu bod yn deall yr hyn y gofynnwyd iddynt ei wneud.

Dywedodd rheolwyr y practis wrthym am y cyfleusterau i sicrhau hygyrchedd i'r practis i'r rheini ag anableddau. Dywedodd rheolwyr y practis wrthym fod y practis ar lawr cyntaf canolfan iechyd bwrpasol. Dywedwyd wrthym fod gan y practis lifft i gleifion gael mynediad i'r practis a bod sawl man parcio i'r anabl y tu allan i'r adeilad. Yn ogystal â hyn, dywedwyd wrthym fod toiled hygyrch a desg derbynfa is i gleifion eu defnyddio. Fe'n hysbyswyd bod system dolen clyw[1] i gynorthwyo'r cleifion hynny a allai fod yn drwm eu clyw. Roedd gan y practis fynediad at wasanaeth cyfieithu ar y ffôn a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer cleifion nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael eu hannog i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd gan y practis sawl aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ac roedd aelodau eraill o staff yn cael eu cefnogi i ddysgu siarad Cymraeg. Pe bai cleifion yn gofyn am gyfathrebu yn Gymraeg, rhoddwyd nodyn ar eu ffeil i atgoffa staff o hynny. Roedd yr holl wybodaeth ar gael yn Saesneg ac yn Gymraeg.

Gwelsom dystiolaeth o amserlenni glanhau'r ddeintyddfa a oedd yn ystyried y mesurau uwch oherwydd y pandemig COVID-19, yn ogystal ag asesiadau risg ar gyfer pob ardal yn y practis. Roedd y dogfennau hyn yn rhestru risgiau, mesurau rheoli a rhagofalon amrywiol a oedd ar waith i liniaru'r risgiau a amlygwyd, yn ogystal â dangos amgylchedd practis diogel.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o heintiau, er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Ymhlith y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym roedd:

- Copi o archwiliad dihalogi Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 mwyaf diweddar a'r cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella
- Polisïau rheoli heintiau cyffredinol a pholisïau penodol ynghylch COVID-19
- Amserlenni glanhau

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Cadarnhaodd rheolwyr y practis y prosesau sydd ar waith i ddiogelu cleifion a staff pan fydd

[1] Mae **dolen clyw** (a elwir weithiau'n ddolen sain) yn fath arbennig o system sain i'w defnyddio gan bobl â chymhorthion clyw.

gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosolau[2] yn cael ei chynnal. Roedd y broses hon yn dilyn y canllawiau diweddaraf a gyhoeddwyd gan Brif Swyddog Deintyddol Cymru. Roedd yr holl staff yn cael gwybod am y canllawiau a gyhoeddwyd gan y Prif Swyddog Deintyddol, a chawsant wybod am y polisïau a gweithdrefnau practis cysylltiedig trwy gyfarfodydd staff rheolaidd a chyfarfodydd tîm dyddiol a oedd yn cael eu cynnal bob bore. Yn ogystal â hyn, hysbyswyd staff am ddiweddariadau trwy gymhwysiad negeseuon symudol.

Gwelsom dystiolaeth a ddarparwyd yng Ngweithdrefn Weithredu Safonol y practis y byddai sugno cyfaint uchel yn cael ei ddefnyddio yn ystod gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosolau pan fo hynny'n bosibl, er mwyn lleihau'r risg o ronynnau yn yr aer (aerosolau).[3][4] Yn ogystal â hyn, dywedwyd wrthym fod gan ystafelloedd triniaeth lle roedd gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosolau yn cael eu cynnal hysbysiadau arnynt i hysbysu staff i beidio â mynd i mewn nes bod y cyfnod segur[5] wedi'i gwblhau. Roedd cleifion a gafodd eu hasesu fel rhai a oedd yn risg uchel o gael COVID-19 yn cael cynnig apwyntiadau ar ddechrau'r dydd.

Fe'n hysbyswyd bod unedau hidlo aer a phurwyr aer wedi'u gosod yn y rhan fwyaf o'r ystafelloedd triniaeth, a oedd yn galluogi'r practis i weithredu gyda'r cyfnod segur[6] lleiaf o ddeg munud yn dilyn gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosolau. Cadarnhaodd rheolwyr y practis fod gan yr ystafelloedd triniaeth sy'n weddill unedau hidlo aer symudol, a bod yr holl staff wedi cael eu hyfforddi ac yn gwybod sut i weithredu'r ddwy fath o uned yn gywir.

Gwnaethom gadarnhau'r broses o wirio nad oedd cleifion a oedd yn ymweld â'r practis yn dangos symptomau COVID-19 gyda rheolwyr y practis. Fe'n hysbyswyd y byddai cleifion yn cael eu ffonio cyn eu hapwyntiad a gofynnwyd cyfres o gwestiynau sgrinio iddynt. Anfonwyd holiadur sgrinio i'w llenwi ar-lein atynt hefyd. Yna byddai cleifion yn cael eu hailsgrinio wrth iddynt fynychu'r practis a byddent yn cael cynnig masg wyneb pe na baent yn gwisgo un yn barod, ac yn cael eu hannog i ddefnyddio'r hylif diheintio. Cadarnhaodd rheolwyr y practis, pe bai claf yn mynychu'r practis yn arddangos symptomau COVID-19, y dywedid wrtho am aildrefnu apwyntiad ac y byddai'n cael cyngor yn syth. Pe bai'r claf yn dal i fod angen apwyntiad ar y diwrnod hwnnw, byddai apwyntiad ar ddiwedd y dydd yn cael ei drefnu, pan nad oedd unrhyw gleifion eraill yn bresennol yn y practis.

Dywedwyd wrthym fod yr holl staff a oedd yn ymgymryd â gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosolau wedi cael prawf ffitio ar gyfer masgiau FFP3,[7] a'u bod wedi derbyn yr hyfforddiant

---

[2] Mae gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosolau yn weithdrefn feddygol a all arwain at ryddhau gronynnau yn yr aer (aerosolau) o'r system anadlu wrth drin rhywun yr amheuir ei fod, neu ei bod yn hysbys ei fod, yn dioddef o gyfrwng heintus a drosglwyddir yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy'r aer neu drwy ddefnynnau.

[3] Mae sugnwr cyfaint uchel yn ddyfais sugno sy'n tynnu cyfaint mawr o aer dros gyfnod o amser.

[4] Gall aerosolau deintyddol gludo feirysau a throsglwyddo heintiau.

[5] Cyfnod segur yw'r amser segur yn yr ystafell driniaeth ar ôl cynnal gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosolau sy'n caniatáu i unrhyw ddefnynnau setlo cyn i'r broses lanhau a dihalogi gael ei chynnal.

[6] Cyfnod segur yw'r amser segur yn yr ystafell driniaeth ar ôl cynnal gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosolau sy'n caniatáu i unrhyw ddefnynnau setlo cyn i'r broses lanhau a dihalogi gael ei chynnal.

[7] Nodwyd yr angen i wisgo masg FFP3 (amddiffyniad anadlol ar ffurf masg untro ar gyfer y geg a'r trwyn) trwy asesiad risg clinigol. Defnyddir y masg i amddiffyn rhag pathogenau a gludir yn anadlol. Er mwyn defnyddio'r

diweddaraf mewn defnyddio cyfarpar diogelu personol uwch, gan gynnwys y dull cywir o'i wisgo a'i ddiosg.[8] Cyflawnwyd hyn trwy gyfarwyddyd wyneb yn wyneb a ddarparwyd gan aelod o staff hyfforddedig yn y practis. Yn ogystal â hyn, roedd posteri yn atgoffa staff o'r defnydd cywir o gyfarpar diogelu personol yn cael eu harddangos mewn safleoedd amlwg mewn ardaloedd gwisgo a diosg. Gwnaeth rheolwyr y practis ein hysbysu bod y staff yn gwisgo'r cyfarpar diogelu personol cywir, gan gynnwys masgiau FFP3, gynau, ffedogau a feisorau, wrth drin cleifion.

Dywedodd rheolwyr y practis wrthym eu bod wedi profi rhai anawsterau wrth ddod o hyd i ddigon o gyfarpar diogelu personol yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, roeddent wedi goresgyn hyn trwy weithio gyda phractisau deintyddol cyfagos i rannu cyflenwadau. Hefyd, gyda'r cymorth ychwanegol gan y Bwrdd Iechyd Lleol, roeddent wedi ymdopi'n dda ac wedi sicrhau eu bod yn gallu parhau i gynnig gwasanaeth diogel i gleifion. Dywedwyd wrthym fod gwiriadau stoc gweledol yn cael eu cynnal yn ddyddiol gan aelod penodol o staff, a bod stoc yn cael ei harchebu bob wythnos gan reolwr y practis.

Gwelsom dystiolaeth o archwiliadau rheoli heintiau a gwblhawyd yn ddiweddar ac a oedd yn cydymffurfio â'r rheolau, rhestrau gwirio dyddiol ar gyfer offer dihalogi a sterileiddio, ac amserlenni glanhau a oedd yn cwmpasu'r pythefnos blaenorol, yn ogystal â gweithdrefnau ysgrifenedig diweddar ar gyfer atal COVID-19 a oedd yn unol â'r canllawiau cyfredol. Cawsom hefyd ddogfen polisi rheoli heintiau a oedd yn ymdrin â phob maes.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, fe holodd AGIC gynrychiolwyr y gwasanaeth ynglŷn â'r ffordd maent wedi addasu eu gwasanaeth mewn ymateb i effaith COVID-19. Fe wnaethom archwilio a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod staff yn addas yn eu rolau ac a ydynt wedi'u hyfforddi'n briodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Ymhlith y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym roedd:

- Copi o'r adroddiad blynyddol diweddaraf a baratowyd o dan Reoliad 16(3) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017
- Polisïau/gweithdrefnau cydsyniad ar sail gwybodaeth
- Cynlluniau parhad busnes
- Cofnodion hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob aelod o staff
- Asesiadau risg a gymerwyd mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau, yr amgylchedd, ac iechyd a diogelwch staff

masgiau hyn, rhaid i'r staff perthnasol gael prawf ffitio'r wyneb er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cael masg sy'n ffitio'r wyneb mewn ffordd addas a'i fod yn gweithredu i'r effeithlonrwydd gofynnol.

[8] Gwisgo – gwisgo cyfarpar diogelu personol; diosg – tynnu cyfarpar diogelu personol.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Fe'n hysbyswyd gan reolwyr y practis na wnaeth y practis gau yn ystod y pandemig a'u bod wedi parhau i ddarparu cymorth a chyngor i gleifion dros y ffôn yr oedd arnynt eu hangen. Dywedwyd wrthym fod staff, ar ddechrau'r pandemig, wedi'u rhannu'n “swigod”, gyda phob swigen staff yn gweithio ar amseroedd penodol yn unig. Roedd hyn yn golygu nad oedd angen i'r practis newid eu horiau agor, gan hefyd helpu i gadw staff yn ddiogel.

Roedd rheolwyr y practis yn canmol eu staff yn fawr, gan ddweud wrthym eu bod wedi addasu'n dda, er gwaethaf yr heriau a grëwyd gan y pandemig. Fe wnaethant gadarnhau bod yr holl staff wedi cwblhau asesiadau risg COVID-19 a bod y rhai a nododd eu bod yn agored i niwed wedi cael eu symud i weithio mewn ardaloedd eraill o'r practis. Esboniodd rheolwyr y practis fod staff wedi cael cymorth yn ystod y pandemig gan reolwyr, a bod ganddynt fynediad hefyd at linell gymorth dros y ffôn i gefnogi llesiant staff a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd Lleol. Cynigiwyd adolygiadau a thrafodaethau rheolaidd gyda thîm rheoli'r practis i staff yr oedd angen cymorth ychwanegol arnynt oherwydd y pandemig.

Fe'n hysbyswyd bod gan y practis broses archwilio gadarn ar waith, a darparwyd enghreifftiau inni yn ymwneud â radiograffeg a chadw cofnodion a oedd yn dangos canlyniadau rhagorol. Fe'n hysbyswyd gan reolwyr y practis fod prosesau archwilio wedi parhau trwy gydol y pandemig, gydag adolygiadau gan gymheiriaid yn cael eu cynnal yn ddyddiol rhwng staff, a oedd yn caniatáu i unrhyw faterion gael eu hamlygu er mwyn mynd i'r afael â nhw ar unwaith. Hefyd, dywedwyd wrthym fod archwiliadau'n cael eu cynnal yn wythnosol ar gyfer offer diheintio a sterileiddio, ac y cynhaliwyd archwiliad practis cyfan bob tair blynedd.

Gwnaethom ofyn i reolwyr y practis ddisgrifio'r prosesau a gweithdrefnau a oedd yn sicrhau bod cyffuriau ac offer a ddefnyddir mewn argyfwng ar gael ac o fewn eu dyddiad. Dywedwyd wrthym fod y cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn cael eu gwirio'n wythnosol ar ddiwrnod penodol gan reolwr y practis neu'r nyrs arweiniol. Gan fod y practis yn cynnig tawelyddu ymwybodol mewnwythiennol ar gyfer deintyddiaeth, dywedwyd wrthym fod silindrau ocsigen yn cael eu gwirio'n ddyddiol a bod gwiriad gweledol o'r holl gyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn cael ei gwblhau bob dydd. Cofnodwyd gwiriadau wythnosol mewn llyfr cofnodion ynghyd â dyddiadau dod i ben cyffuriau. Roedd cyffuriau ac offer a ddefnyddir mewn achos brys yn cael eu cadw mewn ardal a oedd yn hygyrch i'r holl staff trwy gerdyn mynediad.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Yn ystod yr alwad gwirio ansawdd, fe'n hysbyswyd bod gan y practis nifer o achosion cysylltiedig o COVID-19 yn gynharach yn y flwyddyn. Gwnaethom ofyn i reolwyr y practis a oeddent yn ymwybodol o'r broses gywir i sicrhau bod AGIC yn cael eu hysbysu'n brydlon am unrhyw ddigwyddiadau o'r fath. Fodd bynnag, roedd peth dryswch ynghylch pwy fyddai'n hysbysu AGIC pe bai hyn yn angenrheidiol. Wrth wirio ein cofnodion, ni wnaed unrhyw hysbysiad i ni.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r weithdrefn gywir ar gyfer hysbysu AGIC o ddigwyddiadau hysbysadwy yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, a'u bod yn dilyn y weithdrefn honno.

Fel rhan o'r broses gwirio ansawdd, cyflwynodd rheolwyr y practis dystiolaeth i AGIC o hyfforddiant gorfodol i'r holl staff. Ar adeg y gwiriad ansawdd, nid oedd llawer o staff yn cydymffurfio â'r gofynion ar gyfer hyfforddiant tân a hyfforddiant yn y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol).[9] Nid oedd rhai staff newydd wedi cwblhau unrhyw hyfforddiant mewn cynnal bywyd sylfaenol, nac mewn amddiffyn plant, na chwaith hyfforddiant mewn amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed. Mae'n bwysig bod yr holl staff yn meddu ar y wybodaeth a sgiliau diweddaraf mewn perthynas â'u cyfrifoldebau a'u rôl mewn lleoliad clinigol er mwyn amddiffyn cleifion a staff. Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ofyn i reolwyr y practis egluro i ni'r darpariaethau sydd ar waith i sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol a'u bod â'r hyfforddiant orfodol diweddaraf, ac fe'n hysbyswyd bod staff i fod i ymgymryd â hyfforddiant yn y meysydd lle nad oeddent yn cydymffurfio â'r gofynion ar unwaith.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl staff yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf ar ofynion hyfforddiant gorfodol, a'u bod yn hysbysu AGIC pan fydd staff wedi cwblhau eu hyfforddiant gorfodol.

Yn ystod y gwiriad ansawdd, fe'n hysbyswyd bod rheolwr cofrestredig[10] y practis deintyddol wedi bod i ffwrdd o'r practis ac yn gwarchod[11] ers dechrau'r pandemig. Mae'n ofynnol o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 bod rhaid i'r rheolwr cofrestredig reoli'r practis deintyddol preifat o ddydd i ddydd. Pe bai'n absennol am gyfnod parhaus o 28 diwrnod neu fwy, rhaid i'r rheolwr cofrestredig hysbysu AGIC o'i absenoldeb a darparu'r manylion canlynol i ni:

- Hyd disgwyliedig yr absenoldeb
- Y rhesymau drosto
- Y trefniadau i'w gwneud yn ei absenoldeb ar gyfer cynnal y practis deintyddol
- Enw, cyfeiriad a chymwysterau'r unigolyn y mae wedi'i benodi i fod yn gyfrifol am redeg y practis
- A fydd rhywun arall yn cael ei benodi i ddod yn rheolwr cofrestredig

Nid oedd y wybodaeth hon wedi'i darparu i ni ar adeg y gwiriad ansawdd. Fodd bynnag, fe'n

[9] Mae hyfforddiant Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 yn ymwneud â hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus staff gofal iechyd sy'n gyfrifol am dynnu neu brosesu delweddau a ddaliwyd gan belydr-X. Mae'r hyfforddiant hwn yn sicrhau bod staff yn gyfarwydd â'r arferion gorau a chanllawiau diweddaraf sy'n ymwneud â defnyddio pelydrau-X a/neu'r offer a ddefnyddir mewn lleoliad gofal iechyd.
[10] Ystyr "rheolwr cofrestredig" yw unigolyn sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC o dan Ran 2 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 i weithredu fel rheolwr practis deintyddol preifat.
[11] Mae "gwarchod" yn golygu'r weithred o amddiffyn eich hun rhag dal COVID-19 trwy atal bob cyswllt ag eraill, oni bai ei fod yn hanfodol.

hysbyswyd bod trefniadau i benodi rheolwr cofrestredig arall yn cael eu trafod.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig hysbysu AGIC o'i absenoldeb ac o unrhyw drefniadau sydd ar waith i benodi unigolyn neu unigolion amgen i weithredu fel rheolwr cofrestredig neu i ddod yn rheolwr cofrestredig at ddibenion y practis deintyddol preifat.

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Pan fydd angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau gweithredu a gymerir mewn ymateb i’r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
- Cynnwys manylion digonol i ddarparu sicrwydd i AGIC a’r cyhoedd y bydd y meysydd a nodwyd i’w gwella yn derbyn sylw digonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth sy’n ofynnol yn erbyn y camau gweithredu a nodwyd yn cael ei darparu i AGIC o fewn tri mis i’r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau’r gwiriad ansawdd hwn, dylai’r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw’r meysydd i’w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad yn gyffredinol
- Darparu diweddariadau i AGIC pan fydd camau gweithredu yn parhau i’w cyflawni a/neu sydd ar waith, er mwyn cadarnhau pryd yr aethpwyd i’r afael â’r rhain

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad cryno ar y gwiriad ansawdd a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun gwella

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | Eastside Dental |
| Bwrdd Iechyd: | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe |
| Dyddiad y gweithgarwch: | 8 Rhagfyr 2021 |

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd y mae’n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn eu cylch sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Sylwer, disgwylir i’r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r cynllun gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

| | Yr hyn y mae angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu’r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Mae’n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod staff yn ymwybodol o’r weithdrefn gywir ar gyfer hysbysu AGIC am ddigwyddiadau hysbysadwy yn ôl Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, ac yn ei dilyn. | Rheoliad 25 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 | Gan fod gennym eglurhad bellach o'r hyn a olygir wrth ddigwyddiadau hysbysadwy, byddwn yn sicrhau bod AGIC yn cael ei hysbysu os bydd digwyddiadau o'r fath yn digwydd. | Dr Paul Ridgewell (Unigolyn Cyfrifol), Dr Mark Williams a Dr James Crouch-Baker (Rheolwyr Cofrestredig), Mrs Jodie Litchfield a Miss Caitlin Falvey (Rheolwyr y Practis). | I'w weithredu ar unwaith. |
| 2 | Mae’n rhaid i'r rheolwr cofrestredig | Rheoliad 17 o | Cafodd hyfforddiant | Dr Paul Ridgewell | Gwelir y |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | sicrhau bod yr holl staff wedi cwblhau’r holl ofynion hyfforddiant gorfodol diweddaraf a hysbysu AGIC pan fydd staff wedi cwblhau eu hyfforddiant gorfodol. | Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 | cynnal bywyd sylfaenol ei gwblhau gan yr holl aelodau staff ar 09/12/2021. Mae hyfforddiant amddiffyn plant ac oedolion wedi’i drefnu ar gyfer yr holl staff ar 20/01/2022. Bydd hyfforddiant tân yn cael ei gwblhau erbyn ddiwedd 02/2022. Caiff cyrsiau adnewyddu cymorth cyntaf eu cwblhau erbyn 03/2022. Bydd hyfforddiant Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) a rheoli heintiau yn cael ei gwblhau gan aelodau staff pan fydd hyn yn ofynnol o fewn eu cylchredau pum mlynedd. | (Unigolyn Cyfrifol), Dr Mark Williams a Dr James Crouch-Baker (Rheolwyr Cofrestredig), Mrs Jodie Litchfield a Miss Caitlin Falvey (Rheolwyr y Practis). | dyddiadau sy'n gysylltiedig â'r cynllun gweithredu. |
| 3 | Mae’n rhaid i'r rheolwr cofrestredig hysbysu AGIC o'i habsenoldeb ac o unrhyw drefniadau sydd ar waith i benodi unigolyn arall neu unigolion eraill i fod yn rheolwr | Rheoliadau 26 (1)(b) (2)(a-e) (4)(b) o Reoliadau | Yn y dyfodol, os oes angen i reolwr cofrestredig fod allan o'r practis am unrhyw | Dr Paul Ridgewell (Unigolyn Cyfrifol), Dr Mark Williams a Dr James Crouch-Baker | I'w weithredu ar unwaith. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | cofrestredig at ddibenion y practis deintyddol preifat. | Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 | gyfnod o amser, byddwn yn sicrhau bod AGIC yn cael ei hysbysu yn syth. Byddwn hefyd yn sicrhau bod trefniadau cyflenwi digonol ar waith yn ystod absenoldeb y rheolwr cofrestredig. | (Rheolwyr Cofrestredig). | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Enw: *Caitlin Falvey*

Dyddiad: 21/12/2021